

## CYDBWYLLGOR Y GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR

Cofnodion cyfarfod Arbennig o Bell a gynhaliwyd ar 19 Chwefror, 2025

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol:

Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Cynghorwyr M. Lewis a H. Williams.

Yn cynrychioli Cyngor Dinas a Sir Caerdydd – Cynghorydd N. Mackie (Cadeirydd).

Yn cynrychioli Cyngor Bro Morgannwg - Cynghorwyr P. Drake a R. Sivagnanam (Is-Gadeirydd).

(a) Cyhoeddiad –

Cyn i fusnes y Pwyllgor ddechrau, darllenodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y datganiad a ganlyn: “A gaf i atgoffa pawb oedd yn bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio ar y rhyngwrdd a bod y recordiad hwn yn cael ei archifo i'w weld yn y dyfodol.”

(b) Ymddiheuriad am Absenoldeb –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd M. Michael (Cyngor Dinas a Sir Caerdydd).

(c) Cofnodion –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr, 2024 fel cofnod cywir.

(d) Datganiadau Buddiant –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

(e) Cynnig Cyllideb Ddrafft y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir 2025/26 (PC / SA151) –

Pwrpas yr adroddiad oedd cael cymeradwyaeth y Pwyllgor ar y Cyd i Gyllideb Arfaethedig y Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir (GRhR) mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2025/26. Cyflwynwyd hyn i'r Pwyllgor gan y Rheolwr Gweithredol – Cyfrifeg ar y cyd â Phennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir. Rhannwyd cyflwyniad hefyd i gyd-fynd â'r adroddiad.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod y setliad dros dro wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2024 ar gyfer Awdurdodau Lleol a byddai'r fersiwn derfynol yn cael ei darparu cyn bo hir, gyda'r setliadau hyn yn dilyn yr adroddiad a rannwyd gyda'r pwyllgor ym mis Rhagfyr yn nodi opsiynau cyllidebol ac yn amlinellu pwysau cost ar gyfer y gwasanaeth a'r Awdurdodau partner dan sylw. Er ei fod yn dal i fod yn heriol, roedd y setliad dros dro ychydig yn fwy ffafriol nag a ragwelwyd ar gyfer Awdurdodau Lleol ac roedd rhagolygon da am sefyllfa ychydig yn well yn enwedig i Gyngor Bro Morgannwg a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o'r setliad terfynol.

Amlinellwyd yr heriau mewn perthynas â'r cynigion arbedion a'u heffaith ar ddarparu gwasanaethau, a sut yr ystyriwyd y rhain gan yr Awdurdodau partner fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb a'r cynigion.

Dilynodd y gyllideb GRhR arfaethedig mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2025/26 drafodaethau gyda Swyddogion Adran 151 yr Awdurdodau partner a oedd yn seiliedig ar gyllideb sefydlog yn y bôn ar ôl ystyried y gwahaniaeth yn y dyfarniad cyflog ar gyfer 2024/25.

Roedd Cyllideb GRhR Arfaethedig 2025/26 yn £8.838m a oedd yn gynydd net o £25k. Rhannwyd hyn rhwng y gyllideb graidd ar gyfer 2025/26 ac elfen benodol yr Awdurdod o'r gyllideb honno. Roedd hyn yn cynnwys amryw o ailddyraniadau ac addasiadau, gan gynnwys dychwelyd i ddosraniad poblogaeth ar gyfer Cyllideb GRhR 2025/26. Amlinellwyd hefyd yr addasiad bach ar gyfer dyfarniad cyflog 2024/25 a'r arbedion oedd eu hangen i wrthbwysu'r dyfarniad cyflog amcangyfrifedig ar gyfer 2025/26. Amlinellwyd hefyd arbedion penodol i'r Awdurdod i'r Pwyllgor, megis y rhai a gytunwyd yn uniongyrchol gan Ben-y-bont ar Ogwr.

Rhoddyd crynodeb o'r Gyllideb Graidd, wedi'i rhannu yn ôl Awdurdod, gyda gostyngiad i Gyngor Pen-y-bont ar Ogwr ond cynnydd i Gyngorau Caerdydd a Bro Morgannwg.

Nodwyd crynodeb o gyllideb benodol yr Awdurdod, a oedd yn cynnwys adolygiad o ddyraniadau staffio, gan arwain at rai symudiadau o fewn cyllidebau penodol yr awdurdod ar gyfer pob Awdurdod partner ac arbedion ychwanegol o Ben-y-bont ar Ogwr.

Trafodwyd y cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr hefyd yng nghyd-destun y gyllideb hon. Y disgwyliad oedd y byddai llywodraeth ganolog yn cyfateb i gostau'r cyfraniadau hyn. Nid oedd yn glir ar hyn o bryd beth fyddai sail y cyllid cyfatebol hwn i'w ddosbarthu i Awdurdodau Cymru. Ar hyn o bryd, nid oedd cost uwch cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr wedi'i chynnwys yn y

cyfraniadau sylfaenol. Ar hyn o bryd, cynigiwyd y byddai'r costau hyn yn cael eu dosrannu a'u hychwanegu at gyfraniadau chwarterol y gyllideb ddrafft gyfredol yn unol â'r Cytundeb Cydweithio. Pan fyddai Llywodraeth Cymru wedi darparu eglurhad ar y trefniadau ariannu, cynigiwyd y dylid cytuno ar y cyfraniadau hyn yn seiliedig ar y fethodoleg dosrannu a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru a byddai adroddiad diweddarau pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor o bosibl fel rhan o'r sefyllfa yn Ch1.

Er y byddai hon yn gyllideb 'sefydlog', fel y cynigiwyd yn yr adroddiad, byddai hyn yn dal i olygu bod angen gwneud arbedion o fewn GRhR. Byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy arbedion arfaethedig, megis o swyddi gwag, a chynyddu ffynonellau cynhyrchu incwm ac adfer costau hefyd.

Yn dilyn y cyflwyniad, gofynnodd yr Is-gadeirydd sut roedd staff GRhR yn teimlo a sut oedd eu morâl, yng ngoleuni'r cynigion cyllideb a'i effaith yn y dyfodol. Eglurwyd mai morâl staff oedd prif flaenoriaeth GRhR wrth i'r rownd nesaf o arbedion ddod drwodd. Byddai rheolwyr tîm ac eraill yn cadw llygad barcud ar staff ac unrhyw bwysau y byddent yn eu hwynebu oherwydd yr arbedion hyn ar eu llwythi gwaith, ac ati.

Gofynnodd y Cadeirydd pa syniadau oedd wedi bod ynghylch cynhyrchu incwm pellach. Eglurwyd y byddai hwn yn dull deublyg, gyda'r dull presennol, h.y. gweithio'n bennaf gyda busnesau sy'n darparu hyfforddiant ac yna edrych i sefydlu dull mwy newydd hefyd, h.y. ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau arwahanol i Awdurdodau eraill. Dilynodd y Cadeirydd hyn trwy wneud sylwadau y byddai'r dull deul o hybu incwm ar gyfer GRhR yn gofyn am staff ychwanegol yn y dyfodol, oherwydd bod y capasiti presennol yn y pen draw yn wynebu 'pwynt troi' wrth ymdrin â'i ffrydiau gwaith rheolaidd a llwythi gwaith ychwanegol oherwydd cynhyrchu incwm. Roedd y Cadeirydd eisiau diolch i GRhR ar ran y Pwyllgor am ei holl waith caled mewn amgylchiadau heriol ac am yr heriau sydd o'n blaenau, er gwaethaf setliad cyllideb gwell nag a ddisgwyliwyd.

Awgrymodd y Rheolwr Gweithredol – Cyfrifeg, wrth symud ymlaen, y gellid cychwyn y cylch cyllideb a'r broses ar gyfer GRhR yn gynharach er mwyn edrych ar ac adlewyrchu, yn gynharach, ar y pwysau cost y byddai GRhR yn agored iddynt a chyflawni rhai o'r cynigion arbed hynny, yn ogystal ag edrych i drafod gydag Awdurdodau partner ynghylch cynllun ariannol tymor canolig i hir posibl ar gyfer GRhR a fyddai'n rhoi mwy o sicrwydd i'r gwasanaeth o ran cynllunio cyllideb ac i fod yn llai 'ymatebol' o ran ei ddull o arbed, ac ati.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, ac ar ôl ystyried yr adroddiad, y Pwyllgor wedyn

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo Cyllideb Arfaethedig y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar gyfer 2025/26.

(2) Y dylid gofyn i Awdurdodau unigol, yn unol â gofynion y Cytundeb Cydweithio (CGC), gymeradwyo'r Gyllideb Arfaethedig ar gyfer 2025/26 yn ysgrifenedig erbyn 10 Mawrth, 2025.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) O ystyried cynnwys yr adroddiad, trafodaethau yn y cyfarfod ac yn dilyn ystyriaeth o'r adroddiad gan y Cyd-Bwyllgor, yn unol â'r Cytundeb Cydweithio.

(2) Er mwyn caniatáu i'r gyllideb gael ei chwblhau cyn dechrau 2025/26.